



Yr awyr dros Landerne, Llydaw bore 1 Tachwedd 2013.

Ciel d'hier matin.

'Allahou akbar' ou le Grand Principe.

Allahu Akbar: ymadrodd a adroddir gan Fwslemiaid mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd. Er enghraifft, pan font yn hapus iawn, i gymeradwyo rhywbeth, neu i rwystro Mwslim rhag ymffrost trwy ei atgoffa mai Allah sydd wrth wraidd pob llwyddiant. Mae'r ymadrodd hefyd yn gadfloedd mewn argyfwng. Yn y byd Islamaidd, yn hytrach na chymeradwyo trwy guro dwylo, yn aml bydd rhywun yn gweiddi "takbir", a'r dorf yn ateb "Allahu Akbar". Cyfiethiad o WIKIPEDIA <http://en.wikipedia.org/wiki/Takbir>

Llun: Gabriel Quéré



Y Traeth, y Llanw a'r Trai yn y Gaeleg

Ym Mwletin 38 rhestrwyd yr eirfa Gymraeg am wahanol gyflyrau'r llanw. Dyma ohebiaeth rhwng Llên Natur a'r Albanwr Gaeleg ei iaith Ruairidh McLean. Dywedodd Ruairidh mai un gair sydd yn y Gaeleg am traeth a trai, sef *tràigh*. Mae'n dra amlwg i mi bod perthynas agos rhwng y ddau air Cymraeg hefyd. Meddai Ruairidh:

Different levels of the littoral zone can be referred to with *tràigh* as well:

An tràigh-shìolag 'the sand eel beach' – lowest and sub-littoral (ym mharth isaf y traeth y mae [llymriaid](#) i'w cael)

An tràigh-mhaorach 'the shellfish beach' – mid to lower

An tràigh-fheamainn 'the seaweed beach' – upper to mid.

Esboniais wrth Ruairidh am lanw a thrai, a'r berthynas rhwng "llanw" a llenwi" yn y Gymraeg, ac meddai Ruairidh:

That's fascinating. There's a lot of similarities. We use the verb 'lìonadh' for the flow of the tide which means 'filling'. We say làn for 'full' and use it for the full tide – tha an làn ann 'the tide is fully in'. We also use iosal (dialectally iseal) for 'low tide' and the noun form is isle 'lowness'. We would normally use isle-mhara 'sea lowness' to mean the tide has fully ebbed (mara is the genitive form of muir 'sea') but I have heard people say 'an làn iosal' for 'low tide' which is strictly contradictory 'low full' – just as some Welsh speakers do!

mae hi'n llenwi = *tha i a' lìonadh* (both sea and tide are feminine so we use the feminine pronoun)

mae hi'n llawn = *tha i làn*

Tell me there's no ancient Celtic commonality there!

Y Cwt Mochyn

Nid dibwys ymysg adeiladau'r fferm fyddai'r cwt mochyn a'r ffald o'i flaen. Byddai'n ofynnol pesgi moch er mwyn cael cadw'r teulu a defnydd cinio gydol y flwyddyn. Byddai yn rheidrydd prynu perchyll cyn gynted ag y byddai'r cwt yn wag a byddai llawer o sbarion yn gwneud ymborth iddynt hyd nes y deuent yn ddigon mawr i ddechrau eu pesgi. Byddai gan bawb o'r bron dŷ popty ac yno hefyd ceid boeler i ferwi bwyd moch, rhyw fath ar grochan mawr wedi ei osod yn y fath fodd ac y byddai yn bosibl cynnau tan odano. Pob pythefnos, byddai eisiau tan o dan y boeler a'i llanw gyda chwlin tatsws ac India mel a dŵr a'u berwi'n stomp. Dyna fyddai dogn y moch a digon o laeth sgim yn y cafn. Pan ddeuai'r moch yn dew, ac i bwysau neilltuol o naw ugain i ddeg ugain pwys ar y cambren. Mynych, pan ddoi gymydog i'r buarth byddai sgwrs wrth wal y cwt mochyn a'r cwestiwn yn ddi-feth, "Faint 'na nhw?'".... "Maen nhw wedi pesgi yn reit dda."

Wedyn byddai'r diwrnod ag amser gyda'r lladdwr. Robert Roberts, Tŷ Du, Llanuwchllyn fyddai, yn gyffredin, yn lladd moch yn y cwm, a mantais fawr fyddai gwneud mor gynnar ag yr oedd modd yn y Gwanwyn cyn i'r tywydd ddechrau cynhesu. "Fedrwch chi gael y dŵr yn barod erbyn hanner dydd? Rydwi eisiau torri yn y fan ar fan yn y bore." Dyna fyddai'r trefniant, a golygai hynny lanw'r boeler â dŵr. Golygai hynny ddeg i ddeuddeg galwyn a chynnau tan o dani a'i chael i ferwi erbyn yr amser penodedig. Gosod y car lladd yn y certws, sled focs a drws ar ei wyneb fyddai hynny fel rheol a byddai'n awr alaethus yn aml. Rhoi cort yn cryf, wedi ei wneud yn gwllwm rhedeg, yn ofalus yng ngheg y mochyn ac am ei drwyn.

Creadur anodd cael gafael ynddo yw'r mochyn, a byddai yn ofynnol bod yn eithaf deheuig i'w arwain i'w daith olaf a'i godi ar y car lladd. Dull digon creulon fyddai'r modd gynt a da erbyn heddiw na chaniateir y weithred, rhaid dileu'r bywyd cyn gollwng y gwaed. Cedwid y gwaed i gyd a byddai'r pwdin gwaed wedi rhoddi wynwyn yno ei grasu yn y popty a'i ffrïo ar y badell yn ymborth blasus. Rŵan, doi'r broses fawr o grafu'r mochyn, bwcedaid o ddŵr berwedig a'i roi bob yn ychydig ac yna deuai'r holl flew yn glir gan adael y croen yn berffaith lan. Byddai angen sawl bwcedaid o ddŵr at y gwaith hwn. Wedyn rhaid oedd hongian y mochyn trwy ddod o hyd i'r gewynnau yn y traed ôl a gwthio'r cambren drwyddynt, yna ei godi a'i fachu wrth y distiau a'i ben i lawr. Byddai wedyn yn ofynnol ei agor gan dynnu allan yr holl organau mewnol, y stumog, y galon, yr iau a'r perfedd a chadw'r weren yn ofalus i wneud ffagots. Byddai yn bwysig iawn cadw'r bustl hefyd a rhoddi hwn i sychu gan y byddai yn feddyginiaeth ragorol i dynnu pigyn os byddai wedi mynd yn ddyfn i'r llaw. Hwyl y plant hefyd fyddai cael y swigen, chwythid hi gyda chwilsyn a byddai hen gicio arni.

Trannoeth, deuai'r cigydd heibio drachefn i dorri'r pen yn gyntaf wedyn llifio ar hyd yr asgwrn cefn a byddai'r mochyn yn ddau hanner cyfartal, wedyn y ddwy glun, y rhain fyddai'r hams, y ddwy ysgwydd, gan adael ar ôl y ddau ddarn canol, oddiar y rhain y codid yr asennau lawer o fan gig arall i wneud sosej a ffagots a byddai dyddiau lawer o fwynhau'r porc blasus ar asen frau. Rhaid fyddai berwi'r pen hefyd a cheisio cael ysgyfarnog i'w chyd-ferwi gydag ef, gan y byddai hyn yn lleihau braster y brôn. Halltu fyddai'r gorchwyl nesaf, calen o halen i bob mochyn, malu'r halen a'i rwbio i bob darn yn hynod ofalus, byddai hyn yn waith caled gan ei bod yn ofynnol pwyo [pwyso?] yn drwm wrth halltu. Gosod y darnau cig wedyn mewn cist lechen elwid yn seston, a'i adael am chwech wythnos yn yr heli, cyn eu codi a'u golchi yn lan a'u hongian ar fachau ar ddistiau'r gegin i sychu a gwir iawn fyddai'r hen rigwm o gân "Y Mochyn Du", - "Melys iawn yw cael rhyw sleisen/ O gig mochyn gyda thaten"

Pigion o "Arferion a Chwaraeon ardal y Parc erstalwm" gan "Hen Ddwyllo" (OT Jones efallai).

Diolch i Carys Dafydd.

Coed jiwbilli Pentrefoelas

Pentrefoelas, Tachwedd 7ed Llun a stori: Alun Williams



Coed uchaf Pentrefoelas neu Coed y Nant, cant o goed i ddathlu jiwbilli y Frenhines Fictoria yn 1885 efallai. Mae llyfr wedi ei gyhoeddi am y goedlan gan Simon Collinge.

Fe welais yr enfys yma yn uchel, syth uwchben - tua 4:00pm 07/07/2013, roedd hi yn braf iawn a'r haul yn gryf. Cymryd mai y cymylau uchel sydd wedi achosi'r enfys?

Sion Roberts

O'r Papurau Bro

Bara Mate

Pan oeddwn yn blentyn yn Llwynycelyn, Brynberian roedd fy mam yn pobi Bara Mate. Roedd yn talu dyn i dorri'r mate ar y mynydd, yna fyddai yn eu codi yn sawl crit i'w sychu. Ar ôl iddynt sychu fe fyddent yn cael eu cludo i'r ydian a'u gwneud yn das a'u toi â brwyn. Pan fyddai fy mam yn mynd i bobi byddai yn cymryd pump neu chwe maten o'r das a'u rhoi at ei gilydd a'u cynnau. Ar ôl iddynt gochi byddai yn eu hagog er mwyn doddi'r ffwrn yn y canol, yna rhoi'r dorth yn y ffwrn a'i i chau â'r clawr a diodi'r mate nol drosti. Dyna'r bara gorau brofais i erioed. Roedd fy mam yn pobi tarten yr un modd. Mae'r ffwrn a'r clawr gennyf hyd heddiw. Mae'r ffwrn ar hyn o bryd gennyf ar y lawnt a chennin Pedr yn tyfu ynddi.

Tybed beth fyddai gair y gogledd am mate (matiau), sef y donnen o fawn ar wyneb y gors.

Cwlwm

Peth arall a gofiau yn amser fy mhentyndod oedd cwlwm. Byddem yn cael sawl llwyth cart o lwch glo; yna y broses o wneud y cwlwm oedd i gymysgu'r llwch glo a chlai a'i ddodi yng nghornel y clos. Yna byddai fy mam-gu yn ei orchuddio a gwyngalch tew i'w ddiogelu rhag y glaw yn y gaeaf.

Mrs Irene Davies, Maenhir Blaenffos Papur Bro Clebran 1990

Y Giach bach



Llun: Eifion Griffiths

Giach bach yng Ngwarchodfa Natur Conwy, Hydref 15, 2013. Cyfeirnod grid: SH799772, Hawdd 'nabod y giach bach tra'n bwydo allan fel yn y llun. Bychan! Rhyw 2/3 maint giach. Y pig rhyw un

hyd a hanner y pen (mae pig giach dros ddwywaith hyd y pen). Hefyd yn bownsio fyny ac i lawr ar ei sodlau mewn modd reit ddigri. Ond angyffredin (lwcus!) yw golygfa mor dda a hon. Yr olwg mwy arferol yw wrth godi'r aderyn o lan pwll bychan yn llythrennol wrth i chi fod ar fin sathru arno. Mae hyn yn wahanol i'r giach cyffredin sydd fel petai â llai o ffydd yn ei gudd-liw ac yn codi nifer fawr o fedrau i ffwrdd. Mi hedfanith y giach bach yn eitha syth ac isel gan lanio nid yn rhy bell i ffwrdd - heb alw o gwbl. Giach yn codi gan alw yn swnllyd wrth igamogamu i'r entrychion a glanio yn bell iawn i ffwrdd.

Rhys Jones

Diwrnod oeraf Mehefin

O'r Cymro, 26/7/46 [dydd Gwener] - glannau Meirion

"Y dydd oeraf Ni chafwyd diwrnod oerach yng Ngorffennaf na dydd lau yr wythnos diwethaf [25 neu 18 Gorffennaf] ers deugain mlynedd a mwy, yn ôl rhai o'r garddwyr profiadol ar lannau Meirion. Syrthiodd y tymheredd mor isel fel y bu'n rhaid cynnau tân mewn nifer o dai gwydrau. Pryder llawer o'r garddwyr yw na cheir haul i roi gwrid ar domatos cyn iddynt syrthio." Meddai'r meteorolegydd Huw Holland Jones: "it was definitely July 18th that was the cold day, actually a couple of days leading up to that date. The weather log for July 1946 tells the story. A low pressure covered the UK from the 14th to 20th July, an unusually long time. drawing in a N, then NW airstream across Britain. This was a cold and cloudy airstream, and any clear spells at night would lead to very low minima, as was the case. Also unusual was the fact the low developed over the North Sea, not a warm place!, then moved SOUTH WESTWARDS (the opposite direction to the normal track of a low) to settle over N England. You can follow its progress at <http://www.wetterzentrale.de/topkarten/fsslpeur.html>"

Y Cymro, 26 Gorff 1946 drwy law Haf Meredith

O ddyddiadur TG Walker

Merys o Gaernarfon – ffrwyth amheuthun y Nadolig



Mercher 26 Hydref 1949 ... Trwy'r post bore heddiw o Gaernarfon, dyma barsel bychan yn cynnwys y ffrwyth a adwaenir y Saeson wrth yr enw Medlar. Enwau da arno yn Gymraeg yw Cerien, Afal Tindoll, a Merys. Ar y goeden merys wydden y tyf yr

afal rhyfedd hwn, y ffrwyth yn gyfryw na ddichon ei ddefnyddio cyn iddo fod yn or-aeddfed neu ar fin mynd yn ddrwg. Gan amlaf defnyddir y Merys i wneud jeli neu geulffwyd.

TG Walker

Yr englyn, yr eira – a'r dirgelwch

Yn Cymru 1920:Eira Ffestiniog (Gaeafaidd ryfeddol yw ers amryw ddyddiau ym myd y slaits yma – ambell ddiwrnod yn ddigon oer i rewi eirth y pegwn. Nemawr hwyl ar ddim ond ar drio twymo)

CANIEDYDD llac, anwydog – yn awr wyf,
Ac un rhemp o daio:
A'r eira'n glaer orwen glôg,
Estynnir dros Ffestiniog

Elfed

Cyh: Ffestiniog Tachwedd 30, 1911 Elfed (Diolch i Carys Dafydd a dynnu sylw)

"Pa eira yn Ffestiniog yn Nhachwedd 1911, a haeddodd y fath englyn?" meddai'r Golygydd. Ac meddai'r hanesydd Steffan ab Owain: "Does gennyf ddim am eira yn y Blaenau am y flwyddyn hon –1911 ar hyn o bryd –ond y mae hi'n amlwg bod cryn dipyn o eira wedi syrthio hwnt ac yma ym Mhrydain yn mis Tachwedd 1911 – ac ym Mharis,hefyd. Yn y Times Digital archive, ceir tywydd cyffrediniol drwy Brydain am flynyddoedd maith" Mae Steffan wedi trio gwneud synnwyr o'r eira yn englyn Elfed ond dim byd yn tycio 100%. Dydi cronoleg John Kington ("Climate and Weather," Harper Collins) y flwyddyn dan sylw ddim yn cyfeirio at unrhyw gyfnod o eira nodedig drwy'r flwyddyn honno. Un ai mae Elfed wedi dewis cyfnod o eira amhenodol ar ei gof i ddiwallu awen bardd, neu mae hwn yn ddigwyddiad tywydd yn y Blaenau ym mis Tachwedd heb adroddiad amdano. Cawn weld beth fydd gan darllenwyr y Bwletin i'w ddweud.

Llamhidydd ar draeth Meirionnydd



Llun: Hari Lloyd

Mynd am dro pnawn ma [10 Tachwedd 2013] ar y traeth rhwng Aberdyfi a Thywyn. Gweld y corff yma yn gelain ar y cerrig. Y cyfeirnod grid yw SH593 975 sydd bron gyferbyn a'r fynwent ar y ffordd allan o Aberdyfi am Dywyn. Mae llwybr cyhoeddus yn arwain o'r arosfan draws y rheilffordd a'r cwrs golff i'r traeth. Llyn a stori: Hari Lloyd

Os ydych chi yn gweld morlo, dolffin neu lamhidydd, wedi ei dirio ar y traeth cysylltwch a Llên Natur neu www.strandings.com/Wales.html

Llydandroed llwyd yn ardal Gronant, Hydref 28, 2013. Cyfeirnod grid: SJ 088843

A dyma hen ysgrif papur newydd air am air o 1899 am y llydandroed...a hynny yn anisgwyl efallai, yn y Gymraeg: Y PHALAROPE. "Drwg genyf ddarod i mi yn fy ysgrif frysiog ar nodweddion y



Llun: Eifion Griffiths

Phalarope esgeuluso rhoddi yr enw Cymraeg wrth yr hwn yr adnabyddir yr aderyn uchod, sef yw hyny, Pibydd Llwyd Llydandroed. Da genyf ddeall trwy lythyr Mr RLM Pritchard yn y Cymro cyn y diweddaf fod yr aderyn prydfarth uchod yn fwy cyffredin yn Mhrydain nag y bu. Diarnhau genyf fod y fath honiad yn sylfaenedig ar awdurdod gadarn, neu ni fuasai ef yn gwrthdweyd geiriau ei gyfaill. Yr oll a ddywedaf mewn amddiffyniad yw nad wyf ond yn unig rhyw bwt bychan o ednogaethwr ymarferol, yn hoffi cwmni adar er yn blentyn, ac yn fy alltudiaeth yn derbyn llawer iawn o fwynhad wrth sylwi ar eu dull dyddorol o fyw ond pin ddigwydd i un dyeithr ymddangos yn eu plith, rhaid fydd i mi droi i ymgynghori a'r awdurdodau, ac felly y bu y tro hwn yu achos yr aderyn a elwir gan y naturiaethwr bydenwog, y Parch F. O. Morris, B.A., yn Bibydd, &c. Rhaid i mi addef nad oeddwn yn hoffi ei enw Cymraeg, Mr Gol., gan nad beth yw ei ystyr wreiddiol. Mewn perthynas i'w gyffredinolrwydd yn y parthau hyn, gellir dweyd, ar awdurdod Mr Henry Ecroyd Suiith, ddarod i ddau ohonynt gael eu saethu yn Crosby yn 1863, ac un yn fwy diweddar yn ardal Bidston, ond y cyntaf a welais erioed yn fyw ydyw yr un sydd yn cael ei arddangos y dyddiau hyn yn ffenestr Mr W. Cox, 36, Manchester Street, Lerpwl."

YNYSWR .Cymro (Lerpwl a'r Wyddgrug)16 Chwefror 1899

Stori styrsiwn arall

<http://www.rte.ie/radio1/doconone/doconone-podcast-dingle-sturgeon-documentary.html>

Canmlyddiant Corwynt Merthyr

Llun (ar y dde) o gwrs corwynt Edwardsville drwy law Ifor Williams a blog Alan George

<http://www.alangeorge.co.uk/tornado.htm>

Er gwaethed y corwynt hwn, cofiwn gorwynt diweddar yn ynysoedd y Philipinau

Storm fawr 28 Hydref eleni

Y arwyddion

23 Hydref: Newydd ddod yn ol o Lagos yn yr Algarve neithiwr - wedi cael wsnos o dywydd poeth iawn yno - y tymheredd yn anarferol o uchel medda nhw am yr amser yma o'r flwyddyn. Felly roedden nhw yn falch o'r glaw mawr yno ddoe. Olwen Evans, Bryn Celyn, Rhostryfan

24 Hydref: Portiwgal: Ar ol glaw mawr echnos a bore ddoe mi gododd a rhoi cyfle i G ac A fynd am dro. Bore braf heddiw eto (24ain). DB Tirlithriad ddoe ym Mhen y Pas ar ol y glaw mawr (Newyddion BBC)

25 Hydref: Mynd a mam am dro tua Biwmares yn y prawn. Llanw uchel a chwythu'n gryf - es i am dro a chael fy nal mewn glaw trwm nes fy mod fel sbangi o wlyb. Weipars y car yn methu delio a'r dwr. Y bad achub yn cael ei alw allan - gweld yn y papur fod rhai mewn kayak wedi troi drosodd ar y Fenai - fe'u achubwyd yn saff. Olwen Evans, Bryn Celyn, Rhostryfan


Y storm ei hun (28ain)

Gallt-yr-Huan, Llangamarch Noswaith y storwm fawr, a aeth heibio yma fel ysbryd tawel. Y cryfa chwythodd y gwynt oedd 15 m.y.a. Er bod llyfdd i'r De o yma wedi cael hi yn llawer gwaeth. Roedd y ddau diwrnod cynt yn llawer mwy gwyntog a gwlyb. Glaw 13.6 ; tym max ,10,2; tym min 6.2

de Lloegr: Storm fawr ddoe wedi lladd 4? a holl drenau o Waterloo ar stop. Coed ar draws lonydd a chledrau. Miloedd o gartrefi heb drydan. Y storm fawr neithiwr wedi pashio i'r de ohonom yma gan achosi llyfogydd yng Nghaerdydd a difrod yn ne ddwyrain Lloegr. Boddwyd llanc ifanc yn Newhaven. Newyddion BBC

Gwelfor, Waunfawr: Mellt a tharannau'n agos iawn ar ôl noswyllo neithiwr. Stori'n dew yn y papurau a'r newyddion am storm fwyaf ers 1987 i daro de Prydain heno. Cawn weld...DB

Pont Britannia: Yn bur dymhestlog wrth groesi'r bont tua 5 y prawn - y car yn cael ei chwythu wrth basio'r pileri. Rhybudd am dywydd garw - yn enwedig ar gyfer dydd Llun. Y de orllewin fydd yn diodda fwy. Olwen Evans, Bryn Celyn, Rhostryfan



Cnwd gorau erioed?



Llun: Alun Williams


Aderyn du yn mwynhau ffrwyth yr hydref, Hydref 19.

Cnwd gorau o fwyar duon i mi gofio.

Gol.

22 Mehefin 2010: Blodau mwyr duon wedi agor heddiw yn y cae dan yr ardd (220m), er eu bod yn amlwg ym Maentwrog ers dyddiau.

Paul Williams



A chymryd mai ym mis Mehefin yr oedd blodau'r mwyr duon eleni hefyd yn eu hanterth, dyma graff o ddata a gasglodd Ifor Williams o lawiad a thymheredd y mis hwnnw. Tywydd peillienni da?

Cyfanswm glaw mehefin 2013 oedd 44.4mm, dim glaw o Fai 31 tan 10 mehefin, cyfanswm o 13 o ddiwrnodau sych, a chwech diwrnod ble aeth y tymheredd dros 20°C, a'r cyfartaledd am y mis yn 14°C. Ie, Mehefin da i beillwyr.

Hanes dyfrgwn yng Nghwm Nantcol

Yn rhifyn 30 Hydref 2013 o'r Herald Cymraeg, cyhoeddwyd llythyr difyr gan Ieuan Jones, Pwllheli'. Roedd yn sôn fel y bu i'w ddiweddar wraig Dorothy sôn am ddyfrgi a welwyd adeg cynhaeaf gwair yng Nghwm Nantcol. "Roedd fy niweddar wraig yn hanu o Gwm Nantcol ym Meirionnydd. Yn y weigrlodd yr oedd y teulu a chymydog yn hel gwair hefo cribiniau bach a phicwyrch. Yn sydyn gwelwyd ysgarmes ar lan yr afon gerllaw. Dyfrgi oedd yno yn ymosod ar yr ast ddefaid. Gyda chryn dipyn o waith llwyddodd y cymydog i'w gwahanu gyda phicwarch. Doedd yr ast fawr gwaeth, ond nid wyf yn siŵr beth oedd tynged y dyfrgi." Meddai Rhian, merch Dorothy Ieuan, "mae'n debyg mai cynhaeaf gwair 1934 oedd hi. Lawr ger yr hen gors ym Maesgarnedd yr oedd Joe, y gwas o Dalsarnau, hefo dau gi - Black a Dyfi, yr hen ast. Gwelodd ddau ddyfrgi yn yr afon ac fe ddfiannodd un gan adael y llall i ymosod ar y ci. Roedd hi'n dipyn o sgarms ac yn y diwedd llwyddodd Joe i ladd y dyfrgi hefo'i bicwarch. Mae Yncl William yn cofio Joe yn dod â'r dyfrgi yn ôl i'w ddangos i Faesgarnedd".



Dyfrgi, Shetland 2010 (Alun Williams)